Cyngor Cymuned Pentir

POLISI IAITH A DIWYLLIANT

1.0 IAITH A DIWYLLIANT

1.1 I ganiatau fod unrhyw un sy'n cysylltu neu'n delio â Chyngor Cymuned Pentir yn cael gwneud hynny drwy ddefnyddio y Gymraeg neu'r Saesneg.

1.2 I hyrwyddo a datblygu cynaladwyedd ieithyddol.

1.3 I sefydlu mai Cymraeg yw Iaith swyddogol mewnol Cyngor Cymuned Pentir gan gynnig unrhyw gymorth sydd ei angen ar Gynghorwyr a'r Clerc i wella eu defnydd o'r Gymraeg.

2.0 DELIO GYDA'R CYHOEDD

2.1 Cymraeg yw Iaith swyddogol y Cyngor a iaith gweinyddu mewnol y Cyngor.

2.2 Mae gan pob aelod o'r Gymuned yr hawl i gysylltu â'r Cyngor mewn unrhyw Iaith.

2.3 Dylai pob aelod o'r Cyngor sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd fedru gwneud hynny yn y ddwy iaith.

2.4 Os oes cyfarfod cyhoeddus ar unrhyw adeg, dylid darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd oni bai fod y Cyngor o'r farn nad oes ei angen.

3.0 CYSYLLTIADAU AC ARWYDDION

3.1 Gellir cysylltu a'r Cyngor yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Bydd y Cyngor yn cysylltu yn ôl yn yr iaith â dderbyniwyd yr ohebiaeth.

3.2 Pan mae'r Clerc yn cysylltu am y tro cyntaf gydag unrhyw unigolyn, fudiad neu asiantaeth, dylid gwneud hynny yn y Gymraeg neu yn ddwy ieithog.

3.3 Fe fydd y Cyngor yn defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar enwau llefydd, afonydd, mynyddoedd a.y.y.b., yn ychwanegol i enwau Cymraeg ar asiantaethau ar wahan i pan mae'r Cynghorwyr wedi caniatau defnyddio fersiwn gwahanol.

3.4 Dylai pob hysbyseb fod yn y ddwy iaith ar wahan i:-
(a) hysbyseb yn y Gymraeg yn unig mewn papurau newydd Cymraeg.
(b) hysbysebion am swydd ble mae defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol, dylid fod yn Gymraeg yn unig gyda nodyn yn Saesneg yn esbonio natur y swydd.

4.0 STAFF

4.1 Er mwyn i'r Cyngor wireddu y polisi, dylai pob aelod o'r Cyngor a'r Clerc fedru cysylltu a'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg os yn bosib.

4.2 Fe fydd y Cyngor Cymuned yn cefnogi ac yn annog pob aelod i wella eu ddefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg pe mynnir drwy annog yr aelodau fynychu cyrsiau os yn berthnasol.

4.3. Os nad yw'n bosib i gyflogi person dwyieithog i swydd y clerc bydd angen cyfarfod arbennig i drafod os yw'n briodol i hysbysebu am berson di-Gymraeg gyda'r amod ei fod/eu bod yn dysgu y Gymraeg o fewn cyfnod o chwe mis.

4.4 Fe ddylai unrhyw apwyntiad gael ei wneud ar yr amod eu bod wedi dysgu y Gymraeg yn lafar ac ysgrifenedig i safonau derbynniol o fewn dwy flynedd.

5.0 CYFARFODYDD

5.1 Fe fydd pob agenda, adroddiad a chofnodion y Cyngor yn ogystal ag unrhyw Is-bwyllgor yn y Gymraeg yn unig, oni bai fod y Cyngor o'r farn nod angen fersiwn dwyieithog.

5.2 Yn y Cyngor Llawn, mae gan aelod o'r cyhoedd (gyda gwahoddiad) yr hawl i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

5.3 Gall darpariaeth i gyfieithu ar y pryd gael ei ddarparu mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ogystal â cyfarfod blynyddol y Cyngor pan ddisgwylir aelodau o'r cyhoedd Saesneg eu h'iaith i'r cyfarfodydd a phan mae;'r Cyngor yn ystyried fod angen digonnol.

6.0 GWASANAETH I ASIANTAETHAU

6.1 Dylid defnyddio y Gymraeg pan yn cysylltu â chyrff cyhoeddus o fewn Cymru.

6.2 Dylai unrhyw Gwmni, Asiantaeth neu fudiad sy'n cael cymorth ariannol gan y Cyngor gael polisi Iaith tebyg i'r Cyngor Cymuned gan ganiatau hefyd fod unrhyw gysylltiad gyda'r cyhoedd sydd ganddynt yn defnyddio y dwy iaith.

CYNGOR CYMUNED PENTIR

Arwyddwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd:

…….. 11-05-2023